# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Chwefror 2017

Amser: 13.00 - 16.34

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3877

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol<br>Emma Cordingley, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Tully, Llywodraeth Cymru<br>Repa Antonio, Llywodraeth Cymru<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru<br>Mair Hughes, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Helen Jones (Ymchwilydd)<br><br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Daniel Greenberg (Cynghorwr Technegol) |

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 8

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol; Emma Cordingley - Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru; a Sarah Tully - Rheolwr Prosiect Polisi Treth Ddatganoledig, Llywodraeth Cymru ynghylch Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i gymeradwyo unrhyw newidiadau pellach drwy e-bost.

## 8 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Briff technegol Cyfnod 2

8.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol Cyfnod 2 gyda: Georgina Haarhoff - Pennaeth Polisi Trethi a Datblygu Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru; Repa Antonio - Rheolwr Prosiect y Dreth Trafodiadau Tir, Llywodraeth Cymru; Andrew Hewitt - Rheolwr Polisi y Dreth Trafodiadau Tir, Llywodraeth Cymru; a Mair Hughes, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru ar Fil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).